Daearyddiaeth rhyw (sef *gender*)

Peter Atkins

Diffiniadau a datblygiad

Mae rhyw yn cyfeirio at y rheolau, y normau a'r arferion sy'n fodd i droi gwahaniaethau biolegol rhwng gwrywod a benywod yn wahaniaethau a luniwyd gan gymdeithas rhwng dynion a merched a bechgyn a genethod. Canlyniad hyn yw bod gwerth gwahanol yn cael ei roi i'r ddau ryw a bod ganddynt gyfleoedd anghyfartal mewn bywyd.

Daw'r dyfyniad hwn o lyfr defnyddiol gan Naila Kabeer a gyhoeddwyd ar y rhyngrwyd gan Ganolfan Ymchwil Datblygiad Rhyngwladol (a chlodwiw) Canada. Mae Kabeer yn ymchwilio i ryw, yn arbennig yng nghyd-destun datblygiad yn y gwledydd sy'n datblygu, ond mae perthnasedd dadleuon y llyfr yn eang. Mae'n bwysig nodi nad yw'r darlun yn ddu i gyd a bod digon o enghreifftiau o hunangymorth ymhlith merched ac o hunanrymuso cadarnhaol, a hynny'n aml yn wyneb anfanteision sylweddol.

www.idrc.ca/en/ev-42962-201-1-DO_TOPIC.html

Daearyddiaeth cyfleoedd mewn bywyd

Ceir un o'r enghreifftiau mwyaf arswydus o'r gwahanol gyfleoedd mewn bywyd rhwng bechgyn a genethod yn ne Asia a China, lle mae'r gymhareb ryw yn sylweddol o blaid gwrywod. Er enghraifft, datgelodd cyfrifiad poblogaeth 2001 yn India nad oedd y cydbwysedd niferoedd rhwng y ddau ryw yn ne'r wlad yn wahanol iawn i'r hyn a geir yng ngorllewin Ewrop, ond mewn taleithiau gogleddol roedd hyd at 20% yn llai o ferched a genethod nag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl fel arfer. Mae genethod yn yr ardal hon yn cael eu rhoi dan anfantais, a hynny mewn nifer o ffyrdd, ac maent yn cael eu tanbrisio yn ddiwylliannol. Mae'r posibiliadau sydd ganddynt o dderbyn addysg a gofal iechyd yn gyfyngedig, ac erbyn hyn ceir tystiolaeth gynyddol fod erthyliadau detholus wedi dilyn lledaeniad y peiriannau uwchsain y gellir eu defnyddio i ddarganfod rhyw ffoetws. Ceir llawer o wefannau ar y pwnc hwn.

www.mapsofindia.com/maps/india/urban-sex-ratio.html
www.medindia.net/health_statistics/general/sexratio.asp
http://iussp2005.princeton.edu/download.aspx?submissionId=51524

Data gweithlu

Mae gwefan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (SLlRh, ILO) yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfranogiad genethod a merched yn y gweithlu. Er mwyn cyd-daro â Diwrnod Rhyngwladol y Merched, 8 Mawrth 2007, cynhyrchodd yr SLlRh gyhoeddiad oedd yn crynhoi tueddiadau byd-eang gwaith merched. Dengys hwn fod 48.9% o ferched o oedran gweithio yn y farchnad waith, o'i gymharu â 74.0% o ddynion. Mae'r anghydbwysedd hwn yn fwy yn y dwyrain canol a gogledd Affrica (24.5% o'i gymharu â 69.3%) ac yn ne Asia (33.8%, 73.3%).

Mae merched yn parhau i fod yn fwy tebygol na dynion o gael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth ac yn y diwydiannau gwasanaethu, ond yn llai tebygol o gael eu cyflogi yn y diwydiannau gweithgynhyrchu; maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith pan fyddant yn dymuno gweithio. Mae statws gwaith merched yn parhau i fod yn isel, gyda chyflogau gwaelach na dynion. O ganlyniad, mae tlodi yn sefyllfa gyfarwydd i ferched sy'n gweithio, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig yn Asia ac Affrica.

www.ilo.org/public/english/gender.htm
www.ilo.org/dyn/gender/gender.home?p_lang=en
www.ilo.org/public/english/employment/strat/download/getw07.pdf

Hefyd, mae anllythrennedd ymysg merched yn gyffredin mewn llawer o wledydd sy'n datblygu, gyda goblygiadau nid yn unig ar gyfer gwaith ond hefyd ar gyfer cyfranogiad llawn merched yn y gymdeithas. Mae hyn ar ei waethaf yn Affrica. Dim ond 8% yn unig o ferched dros 15 oed yn Niger, 14% yn Burkina Faso a 19% yn Guinea Bissau sy'n gallu ysgrifennu eu henwau eu hunain ac sydd â'r sgiliau darllen mwyaf sylfaenol.

http://unesdoc.unesco.org/images/0012/001259/125927e.pdf

Ac yn olaf

Mae daearyddwyr yn draddodiadol ymwybodol o ddelweddau ond nid ydym yn gwneud yn fawr o'u llawn botensial er mwyn deall materion megis rhyw. Meddyliwch am y neges sy'n cael ei throsglwyddo wrth edrych ar rai o'r delweddau ym mhob un o'r gwefannau canlynol ac ystyriwch a yw'n neges gadarnhaol a fydd yn hyrwyddo lles a statws genethod a merched.

www2.unescobkk.org/elib/photos/gender_women/gender_women.htm

www2.unescobkk.org/elib/photos/girls_education/girls_education.htm

www.un.org/av/photo

www.pbase.com/forumweb/gendergap&page=all

www.ilo.org/dyn/media/mediasearch.home?p_lang=en

Peter Atkins

Mae **Peter Atkins** yn Athro Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Durham

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Philip Allan Updates o *Geography Review*, Cyfrol 21, Rhif 3, Chwefror 2008: *Geography of gender*, Peter Atkins.

Diolch i'r canlynol am ganiatâd i atgynhyrchu deunydd:

International Development Research Centre, Canada: t. 1 a 2

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Golygydd: Gwenda Lloyd Wallace
Dylunydd: Richard Huw Pritchard
Cyfieithydd: Ffion Kervegant

Diolch i Davyth Fear, Glyn Owen, Mari Jackson, Janet Cadogan, David Griffiths and Nicola Hawley (y monitoriaid) am eu harweiniad gwerthfawr.